CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Medi 2021

Cylchlythyr Medi 2021 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a’r Gymraeg.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys


Amcanestyniadau is-genedlaethol o’r boblogaeth (awdurdodau lleol) amrywiolion ychwanegol ar sail 2018

Amcanestyniadau is-genedlaethol aelwydydd (awdurdodau lleol) amrywiolion ychwanegol ar sail 2018

Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2020

Amcanestyniadau aelwydydd

Ymgynghori ar allbynnau Cyfrifiad 2021

Ystadegau mudo rhyngwladol

Ystadegau’r Gymraeg

Manylion cyswllt


## Amcanestyniadau is-genedlaethol o’r boblogaeth (awdurdodau lleol) amrywiolion ychwanegol ar sail 2018

Ar 12 Awst, cafodd tri amrywiolyn amcanestyniadau poblogaeth ychwanegol, yn seiliedig ar ragdybiaethau mudo amgen, eu cyhoeddi ar **StatsCymru**. Mae’r rhain yn cynnwys amrywiolyn dim mudo, amrywiolyn cyfartaledd mudo 10 mlynedd ac amrywiolyn cyfartaledd mudo 15 mlynedd.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amcanestyniadau is-genedlaethol aelwydydd (awdurdodau lleol) amrywiolion ychwanegol ar sail 2018

Ar 12 Awst, cafodd tri amrywiolyn amcanestyniadau aelwydydd ychwanegol, yn seiliedig ar ragdybiaethau mudo amgen, eu cyhoeddi ar **StatsCymru**. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiolyn dim mudo, amrywiolyn cyfartaledd mudo 10 mlynedd ac amrywiolyn cyfartaledd mudo 15 mlynedd.

## Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2020

Cafodd amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 o'r boblogaeth ar gyfer gwledydd y DU eu cyhoeddi ar 25 Mehefin 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae hyn yn dilyn y **datganiad SYG Dangosyddion cynnar o faint a strwythur oedran poblogaeth y DU: 2020** a gyhoeddwyd ar 16 Ebrill.

Roedd **amcangyfrif canol blwyddyn 2020 o boblogaeth Cymru** yn 3,170,000, cynnydd o 0.5% (16,700) ar amcangyfrif canol 2019. Amcangyfrifir bod mwy o bobl 65 oed neu'n hŷn yn byw yng Nghymru (669,000) nag o blant 0 i 15 oed (563,000).

Roedd **amcangyfrif canol blwyddyn 2020 o boblogaeth y DU (SYG)** yn 67,080,000, cynnydd o 0.4% o gymharu ag amcangyfrif canol 2019. Hon yw'r gyfradd dwf isaf i'r DU ers canol 2001.

Yr amcangyfrifon poblogaeth hyn yw'r rhai cyntaf i ddangos effeithiau'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hyn yn cyfeirio at y boblogaeth fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020, gan olygu mai dim ond tri mis cyntaf y pandemig sy'n cael eu cyfrif ynddynt.

Bydd amcangyfrifon poblogaeth yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth am yr effaith o ganol 2020 i ganol 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid nodi bod rhai newidiadau diffiniadol (sy’n effeithio ar yr elfennau mudo yn arbennig) o gymharu â data'r flwyddyn gofnodi ddiwethaf a chynghorir defnyddwyr i ddarllen yr **adran Ansawdd a Methodoleg ar wefan SYG**.

Mae data ar gael ar **StatsCymru** yn ôl ardal weinyddol, blwyddyn oedran unigol, rhyw, ac elfennau o ran y newid yn y boblogaeth, gan gynnwys mudo mewnol.

## Amcanestyniadau aelwydydd

Cyhoeddir **amcangyfrifon aelwydydd canol 2020** ar 23 Medi.

## Ymgynghori ar allbynnau Cyfrifiad 2021

Yn ddiweddar, **lansiodd ONS ymgynghoriad cyhoeddus**, a oedd yn amlinellu eu cynigion ar gyfer dyluniad a ffurf y cynlluniau ar gyfer rhyddhau allbynnau Cyfrifiad 2021. Nod yr ymgynghoriad yw cael barn gyfredol ynglŷn ag anghenion manwl defnyddwyr ar gyfer data a dadansoddiadau Cyfrifiad 2021, a deall blaenoriaethau’r defnyddwyr. Bydd adborth y defnyddwyr yn helpu ONS i benderfynu ar ddyluniad terfynol allbynnau a dadansoddiadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr.

Bydd yr ymgynghoriad yn parhau ar agor tan hanner nos ar 5 Hydref 2021. Mae ONS yn bwriadu cyhoeddi ei ymateb i adborth defnyddwyr y gaeaf hwn.

## Ystadegau mudo rhyngwladol

Mae SYG wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau yn ddiweddar sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau o ran mesur mudo rhyngwladol.

**Trawsnewid y system ystadegau poblogaeth a mudo: diweddariadau (SYG)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ystadegau'r Gymraeg

## Proffiliau ystadegol y Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu offeryn ar hyn o bryd sy'n dod â data ar y Gymraeg ar lefel awdurdod lleol a lefel Cymru ynghyd.

Mae'r proffiliau yn cynnwys y data a ganlyn:

- fodweddion demograffig yr ardal
- y Cyfrifiad (gan gynnwys trosglwyddo'r Gymraeg)
- yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Arolwg Defnydd y Gymraeg
- y blynyddoedd cynnar
- addysg

Mae'r offeryn ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ac rydym wedi nodi eisoes fod angen ychwanegu'r data a ganlyn i'r offeryn:

- Dangosyddion cenedlaethol llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- data addysg ar gyfer y Gymraeg yng Nghynlluniau Strategol Addysg
- data ar y gweithlu addysg

Mae'r offeryn ar ffurf ffeil Excel ar hyn o bryd, ac mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Y nod yn y tymor hir yw symud tuag at offeryn sy'n ddangosfwrdd rhyngweithiol.

Mae'r proffiliau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac maent wedi cael eu rhannu â grŵp bach o ddefnyddwyr sy'n awdurdodau lleol, er mwyn inni gael adborth ar yr offeryn.

Os oes diddordeb gennych gael gweld drafftiau cynnar o'r proffiliau, cysylltwch â **dataiaithgymraeg@llyw.cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth

Ar 9 Medi, cyhoeddwyd canlyniadau’r **Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth am y Gymraeg,Ebrill 2020 i Fawrth 2021**.

Yn ôl yr arolwg roedd 29.1% o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg (mae’r ffigur hwn yn cyfateb i oddeutu 883,300 o bobl) ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Bydd y diweddariad nesaf, ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 30 Mehefin 2021, yn cael ei gyhoeddi ar 5 Hydref 2021.

Mae’n bwysig pwysleisio, wrth gwrs, mai’r cyfrifiad ydy’r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut y byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn yr uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Arolwg Defnydd y Gymraeg

Ar 14 Medi, cyhoeddwyd **canfyddiadau cychwynnol Arolwg Defnydd y Gymraeg 2019-20, Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020**. Daeth yr arolwg i ben yn gynharach na'r disgwyl oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'r dadansoddiad yn adrodd ar ba mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, pa mor dda y maent yn ei siarad ac ymhle y gwnaethant ddysgu. Mae hefyd yn cynnwys data ar gyfer y dangosydd cenedlaethol ar ddefnydd y Gymraeg.

Yn ôl yr arolwg, roedd 10% o’r boblogaeth tair oed neu hŷn yng Nghymru yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau, yr un ganran ag yn 2013-15. Dyma un o ddangosyddion cenedlaethol **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** sy’n ymwneud â’r Gymraeg.

O’r siaradwyr Cymraeg tair oed neu hŷn yng Nghymru:

- roedd dros hanner (56%) yn siarad yr iaith bob dydd (waeth beth fo lefelau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu rhugldeer) o'i gymharu â 53% yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, a bron i un ym mhob pump yn siarad yr iaith bob wythnos (19%, union yr un ganran ag yn 2013-15)
- roedd y cyfrannau hyn yn amrywio yn ôl oedran, ac ar ei huchaf ar gyfer y rhai 3 i 15 oed ac ar ei hisaf ar gyfer y rhai 16 i 29 oed
- roedd ychydig llai na'r hanner (48%) yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, o'i gymharu â 47% yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, gyda'r ganran yn cynyddu yn ôl oedran, ar ei huchaf ar gyfer y rhai 65 oed neu hŷn ac ar ei hisaf ar gyfer y rhai 3 i 15 oed
- bu i 43% o siaradwyr Cymraeg ddechrau siarad yr iaith gartref yn blant ifanc, union yr un ganran ag yn 2013-15
- mae dros ddau o bob tri yn cytuno (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod siarad Cymraeg yn rhan bwysig o bwy ydyn nhw

# Manylion cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Rhif ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Medi 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.